

Y Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a diben

01. Mae'r Rheoliadau hyn yn manylu ar y gyfradd sylfaenol gyntaf, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi. Cymhwysir y cyfraddau i warediadau a wneir ar 1 Ebrill 2018, neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn nodi'r hyn a ystyrir yn warediad trethadwy.
02. Y gyfradd sylfaenol fydd £88.95, y gyfradd is fydd £2.80 a'r gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi fydd £133.45.
03. Yn syth ar ôl i'r cyfraddau treth gael eu gosod yn y Rheoliadau hyn, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid cyfraddau yn y dyfodol mewn cysylltiad â threthi gwarediadau tirlenwi, drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol dros dro a ddarparwyd yn adran 95 o'r Ddeddf.

Y weithdrefn

04. Penderfyniad Cadarnhaol.

Craffu ar y rhinweddau

05. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3.

Amcanion polisi

Datganiad ar y bwriad polisi

06. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y [bwriad polisi](#) ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.
07. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd yn cyd-fynd â pholisiau cysylltiedig yn y datganiad.



08. Nododd y Rheoliad fod adran 14(3) o'r Bil yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod y gyfradd dreth sylfaenol, gydag adran 14(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod y gyfradd dreth is ac adran 45(4) yn galluogi iddynt osod y gyfradd dreth ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi.

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

09. Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, gan gynnwys y cyfraddau trethiant arfaethedig, neu fan lleiaf fod y cyfraddau arfaethedig **yn cael eu cyhoeddi** cyn 1 Hydref 2017.

10. O ran cyfraddau'r dreth gwarediadau tir, gwnaed sylwadau gan randdeiliaid ynghylch yr angen i **gyfraddau barhau'n debyg** i Dreth Dirlenwi y DU i leihau 'twristiaeth gwastraff'.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad

11. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr angen i gyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi gael eu gosod ar lefel a fydd, o ganlyniad, yn atal 'twristiaeth gwastraff'.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

12. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr ei bod yn bwysig **cadw cysondeb** â chyfraddau'r Dreth Dirlenwi i osgoi 'twristiaeth gwastraff' a lleihau'r risg o gludo gwastraff dros y ffin.

Rheoliadau yn yr Alban

13. Nid yw Treth Dirlenwi yr Alban yn cynnwys cyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi. Fodd bynnag, mae Treth Dirlenwi yr Alban **yn gymwys** i warediadau a wneir ar dir nad ydyw'n safle tirlenwi awdurdodedig (hynny yw, safle anawdurdodedig). Mae Llywodraeth yr Alban yn rhagnodi cyfraddau Treth Dirlenwi yr Alban mewn Gorchymyn. Roedd cyfraddau 2017–18 wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi yr Alban (Cyfradd Sylfaenol a Chyfradd Is) 2017.

Rheoliadau'r DU

14. Nid yw'r Dreth Dirlenwi yn cynnwys cyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi. Mae'r gyfradd sylfaenol a'r gyfradd is ill dau wedi cael diwygio gan



Ddeddf Cyllid 2016, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2018, a chan gyd-fynd â'r cyfraddau gwarediadau tirlenwi cyfatebol yn 2018–19.

Ymateb y Llywodraeth

15. Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am yr adroddiad ac yn nodi'r pwynt a wnaed am y gyfradd dreth anawdurdodedig.

Safbwynt y Pwyllgor

16. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

